**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Swyddfa'r Prif Weinidog ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 1) 2020.

**Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**

3 Tachwedd 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ("Deddf 2019"), sy'n nodi diffiniadau cyffredinol sy'n gymwys i'r termau a ddefnyddir yn Neddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i Atodlen 1 sy'n ganlyniadol i Ddeddf Dedfrydu 2020, ac yn mewnosod diffiniadau sy'n ymwneud â'r enwau y gall deddfwriaeth eu defnyddio wrth gyfeirio at gyrff statudol penodol.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn gwneud darpariaeth ynghylch dehongli a gweithredu Deddfau Senedd Cymru ac is-offerynnau Cymreig. Mae'n gymwys i Ddeddfau ac offerynnau a ddeddfwyd ar 1 Ionawr 2020, neu wedi'r dyddiad hwnnw. "Diffinnir "is-offeryn Cymreig" yn adran 3(2) o Ddeddf 2019 i gynnwys bron pob is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru.

Mae Rhan 2 o Ddeddf 2019 yn cynnwys adran 6, sy'n darparu, pan fo Deddf Senedd Cymru neu is-offeryn Cymreig yn defnyddio gair neu ymadrodd a ddiffinnir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2019, fod yn rhaid ei dehongli yn unol â'r Atodlen honno. Fodd bynnag, drwy rinwedd adran 4 o Ddeddf 2019, ni fydd y diffiniadau yn gymwys os gwneir darpariaeth benodol i'r gwrthwyneb neu os yw'n ofynnol fel arall yn y cyd-destun.

Mae adran 6(2) o Ddeddf 2019 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Atodlen 1 drwy fewnosod, dileu neu ddiwygio diffiniadau. Mae rheoliadau o dan adran 6(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drwy rinwedd adran 43(2).

Mae Atodlen 1 yn cynnwys diffiniadau o dermau amrywiol y gellir eu defnyddio mewn deddfwriaeth Gymreig. Maent yn cynnwys sawl diffiniad o dermau sy'n ymwneud â throseddau, gan gynnwys "graddfa safonol" dirwyon. Ceir diffiniadau hefyd yn ymwneud â llysoedd a chyrff cyhoeddus sy'n ei gwneud yn glir y gall deddfwriaeth ddefnyddio'r enwau y'u hadwaenir wrthynt yn gyffredinol, yn hytrach na'u teitlau cyfreithiol llawn. (Er enghraifft, gellir cyfeirio at Gomisiwn Elusennau Cymru a Lloegr yn syml fel "y Comisiwn Elusennau".)

Mae Deddf Dedfrydu 2020 yn cydgrynhoi deddfwriaeth ar ddedfrydu yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys y ddarpariaeth sy'n nodi'r "raddfa safonol", mewn Cod Dedfrydu newydd. Mae'n diwygio'r diffiniad cyffredinol o'r "raddfa safonol" yn Neddf Dehongli 1978 ac yn mewnosod diffiniad o'r "Cod Dedfrydu". Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Atodlen 1 i Ddeddf 2019.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Atodlen 1 i fewnosod diffiniadau o'r "Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol", yr "Ymddiriedolaeth Genedlaethol" a'r "Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus" (Senedd Cymru). Mae deddfwriaeth Gymreig yn cyfeirio at yr

endidau hyn o bryd i'w gilydd. Mae'r diffiniadau yn adlewyrchu'r enwau y’u hadwaenir wrthynt fel arfer, sy'n wahanol i'r enwau a ragnodir yn y ddeddfwriaeth sy'n eu sefydlu.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Diben y Rheoliadau hyn yw gwneud i Atodlen 1 i Ddeddf 2019 adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Dedfrydu 2020. Bydd hyn yn sicrhau bod deddfwriaeth Gymreig sy'n cyfeirio at y "raddfa safonol" yn parhau i weithredu'n gywir. Bydd hefyd yn galluogi deddfwriaeth Gymreig i gyfeirio at "y Cod Dedfrydu”. Mae Deddf Dedfrydu 2020 yn diwygio amryw o Ddeddfau presennol Senedd Cymru i fewnosod cyfeiriadau at y Cod, ac mae'n debygol y gall fod angen i Ddeddfau’r dyfodol gyfeirio ato hefyd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn glir y gall deddfwriaeth Gymreig gyfeirio at y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ôl yr enwau hynny. Bydd y diffiniadau yn osgoi unrhyw angen i Ddeddfau Senedd Cymru neu is-offerynnau Cymreig unigol ddiffinio'r enwau hyn a ddefnyddir yn gyffredin.

**5. Ymgynghori**

Ni gynhaliwyd ymgynghoriad allanol ynghylch y Rheoliadau hyn gan mai dim ond mân ddiwygiadau a thechnegol eu natur a wnânt.

**6. Asesiad o Effaith Reoleiddiol**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Rheoliadau hyn gan eu bod yn gwneud mân ddiwygiadau a thechnegol eu natur na fyddant yn effeithio ar gostau i fusnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.